

1. Presenoldeb a Chyflwyniadau

- 1.1 Yn bresennol: John Graystone (Cadeirydd), Kaitlin Crisp, David Elis-Williams, Caroline Davies, Chris Franks, Gayle Hudson, Gerry Jenson, June Jeremy (hyd at gofnod 6), Sonia Reynolds, Dafydd Rhys, Toni Schiavone, Nick Taylor, Heather Willbourn, Marjorie Williams, Iwan Hywel. Roedd cworwm yn y cyfarfod trwy gydol yr amser.
- 1.2 Ymddiheuriadau: Cathy Clark, Glenys Hughes-Jones; Sharon Reader (Pennaeth Ansawdd a Gwasanaethau Dysgwyr).
- 1.3 Yn mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr Dros Dro), Stephen Thomas (Clerc), Siôn Aled Owen (cyfieithydd ar y pryd); Michelle Kerswell (cofnodion 1 a 2 yn unig); Rowland Jones (Syrfêwr Siartredig – cofnodion 1 i 3 yn unig); Nathan Jones (Pennaeth Cyflwyno'r Cwricwlwm) ac Alan Tinsley (Pennaeth TG a Thechnoleg – y naill a'r llall hyd at gofnod 9 yn unig); Mark Baines (Pennaeth Cyllid - cofnodion 6 i 9 trwy Skype); a Cath Hicks (Pennaeth AD a Datblygu'r Gweithlu - cofnodion 6 i 10 trwy Skype).

Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 2 i 7.

2. Cyflwyniad ar ein gwaith presennol yn Rhanbarth y Gogledd

Rhoddodd Michelle Kerswell, Rheolwr Rhanbarthol, drosolwg o ystod bresennol y gwaith addysgol oedd yn cael ei gyflwyno yn chwe sir y Rhanbarth. Disgrifiodd y 4 swyddfa ac ystod y personél yno, yn ogystal â'r cyd-destun o ran lleoliadau economaidd, diwydiannol a gwledig. Roedd datblygiadau diweddar yn cynnwys dod yn Ganolfan Cymru gyfan yn cynnig Mynediad at y Diploma AU wedi'i chymeradwyo gan Agored Cymru (yn cwmpasu AB hefyd), cyfrannu at ymgynghori rhanbarthol ar yr Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, a bod yn rhan o fenter gymunedol NatWest ar gyfer bancio digidol a diogelwch ar-lein. Roedd nifer o enillwyr y Wobr Ysbrydoli, pobl oedd wedi derbyn gwobr partneriaeth leol, yn ogystal ag enillydd Gwobr Siân Thomason 2017, yn dod o'r Rhanbarth. Roedd canlyniadau dysgwyr ar gyfer 2015-16 yn dangos Cyfraddau Cwblhau da ac amrywiaeth o addysg achrededig ac anachrededig – er bod amrywiadau sylweddol rhwng siroedd yn hynny o beth, o ganlyniad i ffactorau hanesyddol.

Cytunwyd y dylid dosbarthu cyflwyniad Michelle Kerswell i holl aelodau'r Cyngor gydag enghreifftiau o astudiaethau achos myfyrwyr – ystyrir bod y rheiny'n bwysig i gynyddu proffil y sefydliad.

3. Diweddariad am Safle Coleg Harlech, Mehefin 2017

Croesawyd Rowland Jones i'r cyfarfod, a nodwyd bod nifer o aelodau'r Cyngor wedi bod ar daith dywysedig o amgylch y safle'r bore hwnnw, yn nwylo medrus Mena Ifans. Esboniodd Kathryn Robson fod blaenoriaethau cyllid a ffactorau eraill wedi lleihau graddau'r defnydd a wneir o'r campws yn sylweddol. Ar hyn o bryd, roedd ei ddaliadaeth yn cynrychioli diffyg blynyddol o £120,000 i'r sefydliad, ond gan fyddai nifer o'r staff oedd yn gweithio yn Harlech yn cael eu diswyddo ar ddiwedd mis

Gorffennaf, byddai llawer o'r golled flynyddol honno yn cael ei thorri. Roedd ein Grŵp Llywio Harlech wedi gwrandao'n gynyddol ar lais anffurfiol y gymuned, sef Harlech Yn Weithredol (Harlech In Action); ac roedd cyd-grŵp gwneud penderfyniadau ar y safle a oedd wedi deillio o'r ymgysylltu hwnnw wedi cyfarfod yn ystod y misoedd diwethaf hefyd. Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cysyniad damcaniaethol i agor gwesty yn adeilad Wern Fawr yn y tymor hir (argymhelliad adroddiad ymgynghoriaeth Clear Thinking 2016) tra gellid cynnal adeilad y theatr fel menter gymdeithasol ac atyniad cymunedol, gan leoli darpariaeth addysgol ar y safle yno yn y tymor byr. Roedd 4½ blynedd ar ôl o hyd ar brydles Theatr Ardudwy yn adeilad y theatr.

Rhoddodd Toni Schiavone ychydig mwy o gyd-destun hanesyddol i'r safle, a diolch i'r rheiny ymhlith y staff yr oedd eu hymroddiad wedi cynnal y sefydliad trwy gyfnodau anodd. Roedd y diddordeb yn y safle a fynegwyd gan fenter China Consulting, a grybwyllwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, wedi deillio trwy Harlech Yn Weithredol: mynegodd y fenter ei bod yn ffafrio prosiectau wedi'u harwain gan y gymuned, ac ar gyfer prydlesu'r safle yn hytrach na'i brynu. Cyfeiriodd David Elis-Williams at gyfarfod Fforwm Rhanbarthol y Gogledd Orllewin y bore hwnnw, pan basiwyd cynnig yn ymwneud â dyfodol y safle (dosbarthwyd copïau ohono, er gwybodaeth). Ni wnaeth unrhyw sylw ar hyn, heblaw i nodi nad oedd yn uchelfraint i ni, fel ymddiriedolwyr elusen, i ffafrio un math o fuddsoddwyr, moesegol neu fel arall, neu un categori o ddiddordeb wedi'i ddatgan yn rhyngwladol neu'n lleol, dros un arall. Roedd ail fuddsoddwyr wedi mynegi diddordeb yn y safle hefyd, sef perchennog Gwesty cyfagos Dewi Sant, a chyfrifoldeb aelodau'r Cyngor oedd ymateb i gynigion a oedd yn dod ger ei fron a pheidio â chyfyngu ar bosibiliadau, pe bai cyfleon eraill fel ei werthu i fod yn gartref preifat neu fel cartref gofal yn ymddangos - er mai gwesty fyddai o bosibl yn cyfrannu'n fwyaf sylweddol at adfywio lleol.

Dywedodd Rowland Jones mai nod ei ymglymiad oedd gwneud y gorau yn ariannol allan o'r ystad yn Harlech ar gyfer Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales fel elusen, gan gynnwys y daliadau tir ehangach o fewn, ac ychydig y tu allan, i ffiniau'r dref. Roedd yn amlwg o'i safbwynt proffesiynol fod heriau cyferbyniol o ran adeilad y theatr ac adeilad gwreiddiol Wern Fawr, a adeiladwyd ar gyfer y ffotograffydd a'r gweithredydd cymdeithasol George Davison. Er y byddai'n anghywir cael gwared ar Wern Fawr islaw ei werth gwirioneddol, roedd y ffaith fod 2 adeilad adfeiliedig i'r de o'r safle, sef Bloc y Tŵr (Tower Block) a Gwesty Dewi Sant, yn cymhlethu'r heriau. Cyfeiriodd at y ddogfen 'The Charities (Qualified Surveyors' Report) Regulations 1992' nad oedd yn bryd ei gweithredu eto, ble roedd angen cyngor a barn ysgrifenedig gan Syrffewr ynglŷn â gwaredu tir ac adeiladau. Er bod ystyriaethau am adfywio Harlech fel cymuned yn ganolog i ddiddordeb Cyngor Gwynedd yng Ngholeg Harlech, nid dyna oedd diben penodol Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Ond eto, roedd cyfraith elusennol yn amlinellu nad y symiau ariannol a wneir ar asedau yn unig ddylai bennu pa ddewisiadau y dylid eu gwneud o reidrwydd chwaith, ond hynny wedi'i ychwanegu at gyfuniad o'r mesurau lles yn gysylltiedig â diben yr elusen. Yn hynny o beth, roedd opsiwn prydlesu wedi cael ei awgrymu gan Rowland Jones fel ffordd o gadw rheolaeth tra'n cadw at gyfraith elusennol. Gallai trefniant prydlesu tymor hir ddod ag arian trwy'r posibilrwydd i ohirio incwm cychwynnol, o gymharu â phryniad cyfalaf.

O ran yr offer cyhoeddiedig, trydanol, electronig a'r offer arall y daethpwyd o hyd iddynt ar draws y safle, roedd rhai o'r deunyddiau TG am gael eu symud i adeilad y theatr o Wern Fawr, roedd deunyddiau eraill am gael eu defnyddio mewn manau eraill yn y sefydliad, ac roedd cynnwys y llyfrgell yn cael ei rhestru ar hyn o bryd. Gofynnwyd pam roedd adeilad y theatr yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r Bloc Amwynderau ar gyfer gweithgarwch addysgol parhaus: gallai'r olaf o'r rhain fod yn lle i fuddsoddi ynddo ymhellach, ond nid oedd anghenion blwyddyn academiaidd 2017-18 yn caniatáu amser ar gyfer gwneud y gwaith hwnnw ar hyn o bryd. Derbyniwyd y byddai modd chwilio am grantiau allanol ar gyfer uwchraddio'r Bloc Amwynderau, ac felly ni fyddai'n ddibynnol ar ein cronfeydd wrth gefn ein hunain ar gyfer gwaith o'r fath.

Parhaodd y Cyngor â'i gyfarwyddyd i Grŵp Llywio Harlech i fonitro ac ymateb yn briodol i'r sefyllfa cyfnewidiol mewn perthynas â'r safle; a rhoddodd awdurdod pellach i'r Grŵp Llywio roi cyfarwyddyd i Syrfëwr Siartredig weithredu'n brydlon yn enw'r sefydliad, pe bai angen gweithredu yn y fath fodd.

4. Data demograffig ar ein dysgwyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016-17 hyd yn hyn

Cyfeiriodd Alan Tinsley at y templed crynodeb un dudalen a oedd yn cael ei ddefnyddio'n gyson erbyn hyn i gyflwyno gwybodaeth o'r fath. Cymharodd ychydig o'r ffigurau â'u ffigurau cyfwerth o 2015-16: roedd y Gyfradd Lwyddo, sef 90%, yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol, ac roedd y ffigur ar gyfer dysgwyr ag anabledd neu anhawster (3.8%) gryn dipyn yn is nag ydoedd mewn blynyddoedd blaenorol. Ystyriwyd bod y newid olaf hwn o ganlyniad i ddiwygio ffurflenni cofrestru myfyrwyr, er nad oedd unrhyw brawf o hynny, a byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro gan staff a gan Bwyllgor Profiad y Dysgwyr, a oedd eisoes wedi cadw golwg ar y mater hwn gan ei bod yn bwysig cadarnhau nad oedd o ganlyniad i anawsterau cynyddol hygyrchedd ar gyfer ein cyrsiau. Gan fod 92% o darged cyflawni'r flwyddyn ar gyfer oriau addysgu eisoes wedi'i fodloni, roedd yn debygol y byddem yn cyflawni ein nod i gyrraedd 97.5% o'r targed cyffredinol ar gyfer y flwyddyn academiaidd. Roedd hyn yn golygu y byddem yn gorffen y flwyddyn gyda thua 15,000 o ddysgwyr, o gymharu â gorddarpariaeth y flwyddyn flaenorol gyda mwy nag 18,000 o fyfyrwyr.

Unwaith eto, cododd David Elis-Williams gwestiwn a ofynnwyd ganddo yn y gorffennol, sef p'un a oedd rhoi'r pwyslais (cywir) ar ddysgwyr mewn ardaloedd ddfreintiedig yn gymdeithasol yn golygu bod siaradwyr Cymraeg mewn rhyw ffordd yn teimlo nad oeddent eisiau mynychu ein cyrsiau, gan fod eu niferoedd ymhell islaw cyfartaleddau cenedlaethol; bu Toni Schiavone yn ymdrin â phwynt gwahanol, ond cysylltiedig, nad oeddem yn gwneud digon i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac y dylem deilwra cyrsiau yn fwy effeithiol ar eu cyfer. Er bod Cyngor Sir Penfro yn ddarparwr addysg oedolion arwyddocaol, roedd bylchau eraill ym map lleoliadau ein cyrsiau yng ngorllewin Cymru yn cyd-fynd ag ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf: **gallai fod yna gydberthynas rhwng y ddau fater, y byddai uwch staff yn ceisio'i hateb trwy ddadansoddi ystadegol pellach (AT/NJ).**

5. Cofnodion Busnes Agored cyfarfod y Cyngor ar 11 Mai 2017 a materion yn codi nad oeddent ar yr agenda

Cymeradwywyd bod cofnodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd, yn gofnod cywir. Codwyd dau fater:

Cofnod 6 – Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned: ninnau oedd yr unig sefydliad a ymddangosodd ym mhob un o'r 4 opsiwn ar gyfer cyflwyno addysg i oedolion yng Nghymru yn y dyfodol, a oedd wedi deillio o'r Adolygiad, a byddai'r cyfarfod cyntaf yn yr ymarfer ymgynghori dilynol yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol. Byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ailddyrrannu'r Grant blynyddol o £4 miliwn ar gyfer Dysgu Oedolion, gan fod anghydbwysedd mawr yn y ffordd yr oedd yn cael ei rannu rhwng awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Dywedodd Dafydd Rhys eto pa mor bwysig oedd peidio ag anghofio ein haelodaeth ar gyfer eirioli ar y mater hwn.

Cofnod 11 – Cytundeb drafft ffurfiol gyda TUC Cymru: nid oedd diweddariad i'w adrodd ar y mater hwn ers cyfarfod y Cyngor y mis blaenorol.

6. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Chwilio ar 25 Mai 2017 a dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd cyntaf Pwyllgorau eraill a gweddill cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2017

Nodwyd y cofnodion hyn yn ffurfiol. Ar gofnod 1, cydnabuwyd ei bod yn bwysig gosod cyflog y Prif Weithredwr yn gywir, fel nad oedd yn rhy uchel nac yn rhy isel. Mewn perthynas â chofnod 4 ar aelodau ychwanegol y Pwyllgor, **dirprwyodd y Cyngor awdurdod yn ffurfiol i'w 3 phwyllgor arall i weithredu ar unwaith ar gyd-ethol aelodau ychwanegol yr oeddent yn eu hystyried yn fuddiol i'w gweithrediad - pe bai angen cyn eu cyfarfodydd cyntaf.**

Cadarnhawyd dyddiadau'r cyfarfodydd agoriadol ar gyfer y tri Phwyllgor hynny fel a ganlyn:

Profiad y Dysgwyr: 1.00 p.m., dydd Mawrth, 4 Gorffennaf ym Mharc Caia, Wrecsam
Archwilio: 10.00 a.m., dydd Iau, 13 Gorffennaf yn Iard y Cowper, Caerdydd
Adnoddau: 12.30 p.m., dydd Iau, 13 Gorffennaf yn Iard y Cowper, Caerdydd;

a dyma oedd dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer gweddill 2017:

- 12.30 pm, dydd Llun, 24 Gorffennaf 2017: Canolfan Arloesi, Glyn Ebwy
- 1.00 pm, dydd Mercher, 27 Medi 2017: Parc Caia, Wrecsam
- 12.30 pm, dydd Iau, 30 Tachwedd 2017: Canolfan Dylan Thomas, Abertawe.

7. Cofrestr Risg ar gyfer Mehefin 2017

Dywedodd Mark Baines wrth aelodau'r Cyngor fod hon yn ddogfen oedd yn cael ei hadolygu bob mis gan yr Uwch Dîm Rheoli a bod y Pwyllgor Archwilio yn craffu arni'n fanwl ym mhob un o'i gyfarfodydd, ond ei bod yn berthnasol i bob llywodraethwr. Tynnodd sylw'r aelodau at y risg allweddol newydd (rhif 3) mewn perthynas ag ansefydlogi posibl a achosir gan yr ad-drefnu arfaethedig.

Rhoddodd yr aelodau sylwadau – y dylai risgiau penodol wedi'r 'rheolaethau' arnynt gael eu categoreiddio'n uwch o hyd yn eu golwg nhw; a bod y ffaith nad oedd yr un risg yn gysylltiedig â chyflwyno a dysgwyr yn anffodus o ran blaenoriaethau canfyddedig. Serch hynny, deallwyd bod hon yn ddogfen oedd yn datblygu, a oedd wedi gwella yn ei chymhwysedd a'i defnyddioldeb dros y ddwy flwyddyn flaenorol. **Dywedodd Kathryn Robson y byddai Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredol diwygiedig 2017-18 yn cael eu dwyn gerbron y Cyngor at ei sylw cyn bo hir, ac y byddai'r Gofrestr Risg yn cyd-fynd yn llawn â'r ddau Gynllun hwnnw o hynny ymlaen.**

Busnes Cyfrinachol y Cyngor, 13 Mehefin 2017– gweler cofnodion 8 i 10 yn gynhwysol, wedi'u cofnodi ar wahân.